**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Cywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025 a Gorchymyn Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Maint Glanio Lleiaf a Chywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Swyddfa Codau Deddfwriaethol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Cwnsler Cyffredinol**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Cywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025 a Gorchymyn Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Maint Glanio Lleiaf a Chywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025.

**Julie James AS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
9 Gorffennaf 2025

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1. Mae Gorchymyn Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Maint Glanio Lleiaf a Chywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (“y Gorchymyn”) a Rheoliadau Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Cywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (“y Rheoliadau”) yn gwneud cywiriadau i is-ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes.

1.2. Mae'r offerynnau statudol canlynol yn cael eu cywiro gan y Rheoliadau –

- Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003 [O.S. 2003/3227 (Cy. 308)]
- Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003 [O.S. 2003/3246 (Cy. 321)]
- Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011 [O.S. 2011/656 (Cy. 94)]
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 [O.S. 2015/1844 (Cy. 272)]
- Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 [O.S. 2021/77 (Cy. 20)]
- Rheoliadau’r Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu (Taliadau) (Cymru) 2023 [O.S. 2023/1303 (Cy. 233)]
- Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) (Cymru) 2024 [O.S. 2024/28 (Cy. 11)]
- Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024 [O.S. 2024/135 (Cy. 29)]
- Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007 [O.S. 2007/2611 (Cy. 222)]
- Rheoliadau Bara a Blawd (Cymru) 2025 [O.S. 2025/88 (Cy. 22)]

1.3. Mae'r offerynnau statudol canlynol yn cael eu cywiro gan y Gorchymyn –

- Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018 [O.S. 2018/645 (Cy. 119)]
- Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024 [O.S. 2024/767 (Cy. 112)]
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu (Cymru) 2012 [O.S. 2012/801 (Cy. 110)]
- Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 [O.S. 2016/55 (Cy. 25)]

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1. Mae'r Rheoliadau a'r Gorchymyn wedi cael eu gwneud gan y Prif Weinidog, fel un o Weinidogion Cymru.

2.2. Mae'r Pwyllgor wedi nodi sawl gwall sy'n cael eu cywiro gan y Rheoliadau a'r Gorchymyn – mae crynodeb o'r adroddiadau perthnasol wedi'i atodi yn yr Atodiad.

2.3. Mae gwneud yr offerynnau hyn yn unol â'r ymrwymiadau a roddwyd i'r Pwyllgor yn ystod fy nhystiolaeth gyffredinol ar 9 Rhagfyr 2024, tystiolaeth yn y trafodion Cyfnod 2 ar gyfer y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) (ar 31 Mawrth 2025) ac yn fy llythyrau at y Pwyllgor dyddiedig 28 Ebrill a 4 Mehefin 2025.

2.4. Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio at y Pwyllgor mewn ymateb i'w adroddiad ar Orchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 yn cadarnhau y byddai cywiriadau yn cael eu gwneud cyn diwedd eleni. Ymdriniwyd â'r cywiriadau hynny yn y Gorchymyn[1].

*Penawdau pwnc*

2.5. Mae'r penawdau pwnc yn yr offerynnau hyn yn adlewyrchu dosbarthiad pwnc y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chywiro. Mae *Statutory Instrument Practice* yn esbonio (ym mharagraff 3.8.6) fod

> *…if more than one subject headings are used, they can be listed in order of relevance or importance, but should be listed in alphabetical order where no particular order of priority applies.*

Mae'r penawdau felly yn nhrefn yr wyddor yn y Gorchymyn a'r Rheoliadau.

*Gweithdrefn rhad ac am ddim*

2.6. Mae'r weithdrefn rhad ac am ddim fel arfer yn cael ei chymhwyso pan ganfyddir bod offeryn yn ddiffygiol mewn rhyw ffordd a chynhyrchir offeryn newydd sy'n cynnwys darpariaethau sy'n mynd i'r afael â'r broblem. Oherwydd bod y Rheoliadau a'r Gorchymyn yn cywiro camgymeriadau mewn offerynnau cynharach, mae'r weithdrefn rhad ac am ddim yn berthnasol. Felly, mae'r ddau offeryn yn cynnwys pennawd sy'n nodi bod y weithdrefn yn gymwys.

2.7. Mae cymhwyso'r weithdrefn yn arwain at ffioedd cyhoeddi ychwanegol i Lywodraeth Cymru (neu Adran o'r Llywodraeth os nad Llywodraeth Cymru), am fod y sefydliad awduro yn talu am gost copïau am ddim ar gyfer unrhyw dderbynwyr hysbys o'r offerynnau cynharach.

[1] Er bod y camgymeriad wedi codi yng Ngorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025, mae'r cywiriadau sy'n cael eu gwneud bellach i orchmynion cynharach: Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016. Mae hyn yn sicrhau bod cysondeb ar draws Gorchmynion 2012 a 2016 o ran y defnydd o dermau penodol ac yn lleihau'r potensial o ddryswch.

*Adran 39, Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019*

2.8. Mae adran 39(1) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu, pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer neu ddyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau, rheolau neu orchymyn a wneir drwy offeryn statudol, y cânt arfer y pŵer neu'r ddyletswydd drwy wneud yr is-ddeddfwriaeth mewn unrhyw un arall o'r ffurfiau hynny drwy offeryn statudol. Er enghraifft, i wneud un offeryn wrth arfer pwerau gwneud rheoliadau a gorchmynion. Dim ond i gyfuno pwerau gwneud rheoliadau a gorchmynion i wneud newidiadau i'r gyfraith fel y mae'n rhychwantu Cymru a Lloegr y gellir dibynnu ar adran 39.

2.9. Rhoddwyd ystyriaeth i wneud y diwygiadau i Orchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018 a Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024 mewn un offeryn, ochr yn ochr â diwygiadau a wnaed wrth arfer pwerau gwneud rheoliadau, gan ddibynnu ar adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Mae'r pwerau i Weinidogion Cymru ddeddfu drwy offeryn statudol yn adran 84(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn rhychwantu Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae pwerau Gweinidogion Cymru i ddeddfu o dan adran 316(1) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, yn rhychwantu'r Deyrnas Unedig. Ar y sail bod y ddeddfwriaeth a wnaed yn dibynnu ar y pwerau hyn yn rhychwantu'r tu hwnt i Gymru a Lloegr, nid ystyriwyd y byddai dibynnu ar adran 39 i gyfuno'r pwerau gwneud gorchmynion hyn â phwerau gwneud rheoliadau yn briodol.

2.10. O gofio nad oes unrhyw orchmynion eraill yn cael eu diwygio gan y Rheoliadau, cynhwyswyd y diwygiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 hefyd yn yr un offeryn â'r diwygiadau i Orchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018 a Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024.

*Hygyrchedd y gyfraith*

2.11. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o ymrwymiadau'r Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, ac mae hyn yn cynnwys cywiro gwallau a datrys amwysedd mewn deddfwriaeth. Felly, rydym o'r farn y bydd y Gorchymyn a'r Rheoliadau yn gwella hygyrchedd y gyfraith sy'n cael ei chywiro.

2.12. Fodd bynnag, mae dadl y gall unrhyw offeryn diwygio ei hun achosi cymhlethdod i ddarllenydd deddfwriaeth, gan y gallai fod yn ofynnol i'r darllenydd nodi'r angen am y deddfiadau diweddarach y mae angen eu darllen ochr yn ochr â'r testun gwreiddiol ac yna ddod o hyd iddynt. Roedd hyn yn arbennig o wir pan deddfwriaeth ar ffurf brint oedd y ffordd gyffredinol (neu'r unig ffordd) y cafodd deddfwriaeth ei chyrchu. Fodd bynnag, mae gwefan legislation.gov.uk wedi datrys y problemau hynny i raddau sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o ddarllenwyr bellach yn cyrchu deddfwriaeth drwy'r platfform

hwnnw, ac ychydig iawn o gopïau print o offerynnau sy'n cael eu prynu[2]. Yn ogystal, mae'r platfform legislation.gov.uk yn dangos deddfwriaeth ar ei "ffurf ddiwygiedig". Mae'r wefan legislation.gov.uk yn esbonio: " Wrth ddweud 'diwygiedig' rydym yn golygu bod gwelliannau a wnaed trwy ddeddfwriaeth ddilynol wedi eu hymgorffori yn y testun."

2.13. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ymwybodol bod y Swyddfa Codau Deddfwriaethol o fewn Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r tîm y tu ôl i legislation.gov.uk i anodi deddfwriaeth Cymru ar y wefan, fel bod hynny ar gael ar ei ffurf ddiwygiedig yn y ddwy iaith. Rydym yn bwriadu blaenoriaethu cymhwyso'r cywiriadau a wnaed gan y Gorchymyn a'r Rheoliadau ar blatfformau legislation.gov.uk.

*Effaith ymarferol y gwallau*

2.14. Ac eithrio'r mater a nodir ym mharagraff 2.15 isod, nid yw'r Llywodraeth yn ymwybodol o unrhyw oblygiadau ymarferol o ganlyniad i'r camgymeriadau sy'n cael eu cywiro gan naill ai'r Rheoliadau na'r Gorchymyn.

2.15. Mewn perthynas â Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024, nodwyd mater drafftio yn y diffiniad o “maint glanio lleiaf” y mae erthygl 7(3) o'r Gorchymyn bellach yn ymdrin ag ef. Mae hyn wedi cael rhai goblygiadau ymarferol i weithgarwch gorfodi. Mae geiriad presennol y diffiniad yn cyfyngu'r gallu i gymryd camau gorfodi ffurfiol mewn achosion lle mae cocos rhy fach yn cael eu casglu. O ganlyniad, mae swyddogion gorfodi wedi bod yn canolbwyntio ar ddarparu cyngor ac annog ailddosbarthu cocos rhy fach. Mae'r dull hwn wedi bod yn effeithiol hyd yn hyn, ac nid oes unrhyw heriau gan gasglwyr wedi’u nodi. Mae datrys y mater hwn drwy'r Gorchymyn yn cael ei ystyried yn ffordd briodol, ac amserol, o ddelio â hyn.

*Materion nad ydynt yn cael eu cywiro*

2.16. Pan ymatebodd y Llywodraeth i bwynt 20 o adroddiad y Pwyllgor ar Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024 (“Gorchymyn 2024”), nododd y byddai ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i gyfeirio at fapiau'r ardal benodedig yng Ngorchymyn 2024. Fodd bynnag, fel y nodir yn fy llythyr at y Pwyllgor dyddiedig 4 Mehefin, nid yw'r Llywodraeth yn ystyried y dylid diwygio Gorchymyn 2024. Mae hyn oherwydd bod yr ardal benodedig wedi'i diffinio gan Atodlen 1 i Orchymyn 2024 drwy gyfeirio at gyfesurynnau daearyddol. Er bod mapiau o'r ardal yn cael eu darparu i bysgotwyr ochr yn ochr ag amodau trwydded ac ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, at ddibenion darluniadol yn unig y mae’r mapiau hyn ac nid ydynt yn rhan o'r diffiniad cyfreithiol weithredol o'r ardal benodol.

2.17. Er mwyn cynorthwyo'r Senedd, gellir cyrchu'r mapiau yn: [https://www.llyw.cymru/pysgota-cocos-mapiau-ardal-penodol](https://www.llyw.cymru/pysgota-cocos-mapiau-ardal-penodol)

[2] Nid yw'r ffigurau gwerthiant ar gael am resymau masnachol, ond mewn cysylltiad ag offerynnau a wnaed gan Weinidogion Cymru deellir eu bod yn isel iawn, yn enwedig o'u cymharu â niferoedd gweld tudalennau a chyfraddau mynediad ar blatfform legislation.gov.uk

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1. Mae'r Rheoliadau a'r Gorchymyn yn ddarostyngedig i’w hannilysu (yr hyn a elwir yn “weithdrefn negyddol”).

3.2. Mae'r Rheoliadau wedi'u gwneud o dan y pwerau a roddwyd –

- i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 52(3)(c) a (d), 167A a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002, ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru;
- i’r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 16(1)(a), (c), (e) ac (f), 17(2), 18(1)(c), 26(1)(a), (2)(e) a (3) ac 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru;
- i’r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 15(1) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990, ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru;
- gan adran 64(1) a (2)(b) o Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;
- i’r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 92(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru;
- gan adrannau 105B(1) a 120A(2)(a) o Ddeddf Adeiladu 1984; a
- chan adrannau 11(6) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a pharagraffau 4(1)(d) ac (e) a 5 o Atodlen 2 iddi.

3.3. Mewn perthynas â Rhannau 4 ac 11 o'r Rheoliadau, rhoddodd Gweinidogion Cymru sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd fel sy'n ofynnol gan adran 48(4A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

3.4. Ymhellach, mewn perthynas â Rhannau 4 ac 11 o'r Rheoliadau, cynhaliwyd yr ymgynghoriad sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 28 Ionawr 2002[3] pan wnaed y rheoliadau a oedd yn cael eu cywiro. Gan fod y cywiriadau sy'n cael eu gwneud drwy'r Rheoliadau hyn yn angenrheidiol i roi effaith i'r bwriad polisi gwreiddiol, mae'r ymgynghoriad ar y ddeddfwriaeth wreiddiol yn parhau i fod yn effeithiol at ddibenion y cywiriadau. Nid oedd angen ymgynghoriad ychwanegol.

3.5. Mewn perthynas â Rhan 8 o'r Rheoliadau, cynhaliwyd yr ymgynghoriad sy'n ofynnol gan adran 120C(1) o Ddeddf Adeiladu 1984 pan wnaed y Rheoliadau sydd bellach yn cael eu diwygio. Gan fod y cywiriadau sy'n cael eu gwneud gan y Rheoliadau hyn (i destun Cymraeg y Rheoliadau gwreiddiol) yn angenrheidiol i roi effaith i'r bwriad polisi gwreiddiol, mae'r ymgynghoriad yn parhau i fod yn effeithiol at ddibenion y cywiriadau. Nid oedd angen ymgynghoriad ychwanegol.

3.6. Mae'r Gorchymyn wedi'i wneud o dan y pwerau a roddwyd gan –

- adrannau 189(1) a 316(1) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009;
- adran 84(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981; ac

[3] sy’n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau mewn materion diogelwch bwyd.

- adrannau 59(1), (2)(b) a (3)(a), 61Z(8) a (9), 62R a 74(1)(c) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1. Mae'r Rheoliadau a'r Gorchymyn yn cael eu gwneud i gywiro camgymeriadau mewn is-ddeddfwriaeth. Mae diwygio'r is-ddeddfwriaeth gynharach mewn offeryn “omnibws” yn y modd hwn wedi'i fabwysiadu gan nad oes unrhyw gyfryngau deddfwriaethol addas eraill wedi'u nodi y gellid bod wedi gwneud y cywiriadau drwyddynt.

4.2. Yn ogystal â chywiro offerynnau cynharach, mae'r Gorchymyn hefyd yn gwneud dau fân ddiwygiad technegol:

4.2.1. yn gyntaf, i'r diffiniad o “maint glanio lleiaf” o fewn erthygl 9(7)(b) o Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024 yn dilyn sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru (a gweler paragraff 2.15 uchod).

4.2.2. yn ail, i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ac i Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 i sicrhau cysondeb mewn cyfeiriadau yng Ngorchmynion 2012 a 2016 at y corff a elwir "Corff Adnoddau Naturiol Cymru" (a gweler paragraff 2.4 uchod).

## 5. Ymgynghori

5.1. Mae'r Rheoliadau a'r Gorchymyn yn cywiro offerynnau blaenorol ac yn gwneud diwygiadau cyfyngedig iddynt. Nid oes unrhyw un o'r cywiriadau na'r diwygiadau yn adlewyrchu unrhyw newid ym mholisïau Llywodraeth Cymru a weithredwyd gan is-ddeddfwriaeth gynharach. Felly, nid ystyriwyd bod angen ymgynghori.

5.2. Nodwch hefyd baragraffau 3.4 a 3.5 uchod.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AER)

6.1. Gan fod y Rheoliadau a'r Gorchymyn yn gwneud cywiriadau i is-ddeddfwriaeth gynharach ac nid yw'r cywiriadau hynny'n newid y polisi (na'i effaith) yn yr offerynnau cynharach hynny, na sut mae'r ddeddfwriaeth i fod yn gymwys, nid oes angen AER.

6.2. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

**YR ATODIAD – adroddiadau perthnasol y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad**

SL(6)427 - Rheoliadau'r Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu (Taliadau) (Cymru) 2023 – ymdrinnir â phwynt adrodd 3 yn Rhan 8 o'r Rheoliadau.

SL(6)436 - Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023 - ymdrinnir â phwynt adrodd 3 yn Rhan 7 o'r Rheoliadau yn hytrach na defnyddio Slip Cywiro fel y nodwyd yn wreiddiol yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad, nodwch hefyd fod y cywiriadau yn cael eu gwneud i Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

SL(6)444 - Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) (Cymru) 2024 – ymdrinnir â phwynt adrodd 1 yn Rhan 9 o'r Rheoliadau.

SL(6)454 - Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024 – ymdrinnir â phwyntiau adrodd 2, 4, 5 a 6 yn Rhan 10 o'r Rheoliadau.

SL(6)466 - Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2024 – ymdrinnir â phwynt adrodd 3 gan Rannau 2 a 3 o'r Rheoliadau, ond nodwch fod y cywiriadau yn cael eu gwneud i Reoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003 a Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003.

SL(6)470 - Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2024 - -ymdrinnir â phwynt adrodd 2 yn Rhan 5 o'r Rheoliadau, ond nodwch fod y cywiriadau yn cael eu gwneud i Reoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartrefi (Cymru) 2011.

SL(6)538 - Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) (Diwygio) 2024 - ymdrinnir â phwyntiau adrodd 2, 3, 4, 5 a 6 yn Rhan 4 o'r Rheoliadau, ond nodwch fod y cywiriadau yn cael eu gwneud i Reoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007.

SL(6)580 - Rheoliadau Bara a Blawd (Cymru) 2025 – ymdrinnir â phwyntiau adrodd 1, 3, 4 a 5 yn Rhan 11 o'r Rheoliadau.

SL(6)588 - Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 - ymdrinnir â phwynt adrodd 2 yn Rhan 6 o'r Rheoliadau ond nodwch fod y cywiriadau yn cael eu gwneud i Reoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015.

SL(6)503 - Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024 – ymdrinnir â phwyntiau adrodd 3, 5, 7, 10, 11, 14, 15, 16 a 17 yn Rhan 3 o'r Gorchymyn.

SL(6)544 - Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2024 - ymdrinnir â phwynt adrodd 1 yn Rhan 2 o'r Gorchymyn, ond nodwch fod y cywiriad yn cael ei wneud i Orchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018.

SL(6)609 - Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 – ymdrinnir â'r pwynt adrodd gan Rannau 4 a 5 o'r Gorchymyn ond nodwch fod cywiriadau'n cael eu gwneud i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016.